

# Cronfa Integreiddio Rhanbarthol - Proffil dwy dudalen

## Uchelgais 2 (PR017)

Dengys y proffil hwn y manylion lefel uchel sy'n ymwneud â'r cynnig blynyddol, monitro a gwerthuso, gan gynnwys dangosyddion, mesurau perfformiad, gwariant a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

### Trosolwg/crynodeb o'r rhaglen

Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr mewn partneriaeth â BIP CTM a BAVO yn anelu at wella gwasanaethau cymunedol i oedolion trwy fodelau integredig ac ar y cyd. Mae'r rhaglen gynhwysfawr hon yn ymestyn y tu hwnt i'r RIF ac yn ymgorffori dull system gyfan, gan integreiddio gwaith a ariennir yn greiddiol i wella gwasanaethau law yn llaw â Nyrsio Ardal, Gwaith Cymdeithasol, a darpariaeth y trydydd sector.

Amcanion allweddol:

**Tîm rhwydweithiau cymunedol integredig:** Datblygu gweithlu amlddisgyblaethol sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau clwstwr i ganolbwyntio ar gynllunio rhagweladwy a chynlluniau wrth gefn, atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a lleoliadau gofal hirdymor.

**Un Pwynt Mynediad ar gyfer brysbennu nyrsys ardal:** Darparu mynediad saith diwrnod rhwng 8 am ac 8 pm ar gyfer atgyfeiriadau a chyngor nyrsio ardal, gan sicrhau ymatebion amserol a rhagweithiol.

**Dull MDT:** Creu timau amlddisgyblaethol gyda gweithwyr proffesiynol amrywiol, gan gynnwys therapyddion, fferyllwyr, ymarferwyr iechyd meddwl ac ati i ddarparu asesiadau a gwasanaethau cynhwysfawr.

**Integreiddio gofal sylfaenol a meddygon teulu:** Cydweithio â gofal sylfaenol a meddygfeydd teulu i hwyluso ymyrraeth gynnar ac ymgysylltu trwy gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol. Mae Clystyrau Meddygon Teulu wedi ariannu swyddi ychwanegol gan wella'r model gweithredu integredig.

**Canolbwyntio ar bobl hŷn a gofal dementia:** Cefnogi oedolion hŷn, gan gynnwys y rhai â dementia, a'u gofalwyr, trwy fodel gwasanaeth cymunedol integredig. Amlygu gofalwyr di-dâl a chynnal asesiadau gofal i fynd i'r afael ag anghenion cymorth a lleihau straen ar ofalwyr.

Datblygu Cynlluniau Gofal Wrth Gefn (CCPs) ar gyfer unigolion a gofalwyr i reoli risg ac addasu i newidiadau, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i diweddarar ar draws gwasanaethau perthnasol.

### Cynnyrch RIF:

#### Model gofal sylfaenol:

Atal a Chydlynu Cymunedol

#### Galluogwyr:

Cynllunio a chomisiynu integredig

Datblygu ac integreiddio'r gweithlu

Technoleg a datrysiadau digidol

#### Grŵp/iau poblogaeth â blaenoriaeth:

Pobl hŷn

#### Dull Rhanbarthol:

Cyflwynir y rhaglen gan BIP CTM, CBS Pen-y-bont ar Ogwr a phartneriaid trydydd sector ac mae'n gweithredu ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn unig ar hyn o bryd.

### Blaenoriaeth (Cysylltiedig â'r Cynllun Ardal)

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn mwynhau iechyd a llesiant da ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn hirach.

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartref cyhyd â phosibl, neu i symud yn ôl adref cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

Bydd pobl â dementia a'u teuluoedd yn cael mynediad at y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt.

### Gwariant prosiect – £1,079,000 (BA 2023/24)



### Prosiectau/partneriaid sy'n cefnogi cyflawni:

BIP CTM

CBSP

BAVO

Meddygon teulu

ICC

Sector gwirfoddol


### Crynodeb o wariant:

Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Gronfa yn gyfraniad tuag at ddarparu ystod fwy o wasanaethau cymorth adsefydlu sy'n gweithredu ar draws y rhanbarth cyfan. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd yn ystod 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn.


## Allbynnau rhaglen (ffigurau blynyddol): (gan gynnwys mesurau canlyniad ychwanegol)

Atgyfeiriadau i Dimau Rhwydwaith Clystyrau Integredig (ICNT)	2317
Atgyfeiriadau TGCh i nyrsio ardal	200
Pobl a drafodwyd yn MDM	592
Atgyfeiriadau gwaith cymdeithasol	592
Atgyfeiriadau meddygon teulu i'r tîm amlddisgyblaethol	630
Ceisiadau / atgyfeiriadau therapi	1550
Atgyfeiriadau technegydd fferyllol	300
Nifer y galwadau cyffredinol i SPoA	28307
Nifer y galwadau sy'n cael eu gollwng	6572
Atgyfeiriadau dros ddyddiau / oriau estynedig	361

## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol) (Rhifau)



## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol)



## Effaith y rhaglen (ansoddol):

Mae'r effaith ansoddol yn amlgu cryfderau sylweddol mewn gofal sy'n canolbwyntio ar y claf a chydweithio amlddisgyblaethol. Dengys adborth yn gyson lefelau uchel o foddhad gyda'r gwasanaethau a ddarperir, gan ddangos cyfathrebu effeithiol a chefnogaeth wedi'i deilwra i anghenion unigol. Mae'r pwyslais ar gyfarfodydd amlddisgyblaethol a chyfranogiad meddygon teulu yn gwella cynllunio gofal a gwneud penderfyniadau, gan feithrin dulliau trin cynhwysfawr.

Mae canlyniadau allweddol yn cynnwys gwell hyder, llesiant ac annibyniaeth cleifion yn y cartref, gyda chefnogaeth atgyfeiriadau rhagweithiol i wasanaethau therapi a thechnegwyr fferyllol. Mae ymagwedd y rhaglen at ofal rhyddhau ar ôl ysbyty drwy'r ICNT a'r Un Pwynt Mynediad yn dangos ymrwymiad i leihau aildderbyniadau a gwella cydgyssylltu gofal, er gwaethaf heriau fel cyfraddau uchel o roi'r gorau i alwadau. Arweiniodd ymdrechion i wella ymatebolrwydd Un Pwynt Mynediad at welliannau sylweddol, gyda gostyngiad nodedig mewn galwadau a ollyngir.

Yn gyffredinol, dengys effaith ansoddol y rhaglen ei llwyddiant o ran darparu atebion iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n blaenoriaethu boddhad cleifion, modelau gofal cydweithredol, a rheolaeth ragweithiol o anghenion gofal iechyd ar draws Pen-y-bont ar Ogwr.

## Trosolwg perfformiad: (crynodeb)

Mae'r data perfformiad yn amlgu deilliannau gweithredol a chanlyniadau cleifion cadarnhaol. Dengys atgyfeiriadau i'r ICNT ymgysylltiad cadarn â 2,317 o atgyfeiriadau, gan hwyluso gofal cydgyssylltiedig ar draws disgyblaethau amrywiol. Yn nodedig, mae boddhad o 100% yn dystiolaeth o ddarparu gwasanaeth effeithiol, gyda lleihad o 93% mewn amseroedd aros yn dynodi gwell effeithlonrwydd. Mae'r % uchel ar gyfer gwell hyder, llesiant, ac annibyniaeth yn y cartref (90% yr un) yn adlewyrchu'r gefnogaeth effeithiol a ddarperir gan ICTNT.

Ochr yn ochr â hyn, rheolodd Un Pwynt Mynediad 28,307 o alwadau, gydag ymateb sylweddol o 84% mewn amser real a gostyngiad o 16% yn nifer y galwadau a ollyngwyd, sy'n dynodi brysbennu a rheoli cleifion yn effeithiol. Gwelodd yr Un Pwynt Mynediad hefyd 361 o atgyfeiriadau yn ystod oriau estynedig, gan wella hygyrchedd ac ymateb amserol. Teimlai 100%, nifer clodwiw, eu bod wedi cael cymorth a chynghor priodol gan Un Pwynt Mynediad, a oedd yn cyd-fynd â gwelliant o 90% mewn rheoli atgyfeiriadau gan nyrsys ardal, gan hyrwyddo trosglwyddiadau di-dor a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu haildderbyn i'r ysbyty. Yn gyffredinol, dengys y canlyniadau hyn ymrwymiad y rhaglen i fodolau gofal integredig a chyflawni canlyniadau iechyd cadarnhaol trwy ddarparu gwasanaethau effeithlon a dulliau sy'n canolbwyntio ar y claf.

## Argymhellion:

### Parhau i ariannu'r Rhaglen.

Dangosodd y rhaglen dystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl y mae'n eu cefnogi a'u gofalwyr/teulu ond dangosodd ostyngiad mewn canlyniadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae'r rhaglen gyfan yn elfen allweddol o'r RIF a bydd yn rhan o gynlluniau'r dyfodol ynghylch darparu'r 2 lwybr newydd. Bydd yn rhan annatod o gefnogi pobl i aros yn annibynnol, yn ddiogel gartref ac adref o'r ysbyty ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

### Ystyriaethau ychwanegol:

**Strategaeth ariannu hirdymor:** Dylid ystyried trefniadau ariannu sefydlog, hirdymor i gefnogi cynllunio strategol ac ehangu gwasanaethau.

**Buddsoddi mewn seilwaith TGCh:** Dylid dyrannu adnoddau tuag at wella systemau TGCh fel WCCIS a Pwynt Mynediad Sengl i symleiddio gweithrediadau ymhellach.

**Hyrwyddo modelau gofal integredig rhanbarthol:** Dylid annog mabwysiadu modelau gofal integredig yn ehangach trwy gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid rhanbarthol.